**AC 01-99(p.2)(w)**

# AMCANGYFRIF
# o incwm a threuliau
# ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU
# am y flwyddyn a ddaw i ben
# 31 Mawrth 2001

Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 93(4) Deddf Llywodraeth Cymru 1998

**xx Medi 1999**

**CYNNWYS**

***Cyflwyniad* 1**

***Amcangyfrif o incwm a threuliau swyddfa Archwilydd***

***Cyffredinol Cymru am y flwyddyn a ddaw i ben 31***

***Mawrth 2001*** **2**

**Nodiadau esboniadol 2**

***Atodlen 1: Cyfrifon a archwiliwyd gan Archwilydd***

***Cyffredinol Cymru*** **5**

## Cyflwyniad

1. Mae’n bleser mawr gennyf gyflwyno yr amcangyfrif hwn o’m hincwm a’m treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2001 i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Hon fydd y flwyddyn lawn gyntaf o weithgareddau fy Swyddfa.

2. Fy mwriad yw darparu gwasanaeth archwilio ariannol a gwerth am arian sy’n broffesiynol ac o’r radd flaenaf. Bydd hwn yn cynnwys:

- Archwilio 27 o gyfrifon a baratoir gan y Cynulliad a’i gyrff cyhoeddus noddedig;
- Ymgymryd â rhagor o waith archwilio ariannol sy’n cwmpasu digonolrwydd systemau a rheolaethau ariannol, rheoleidd-dra a phriodoldeb gwariant, a threfniadau rheolaeth gorfforaethol;
- Adrodd i’r Cynulliad ar ganlyniadau fy ngwaith archwilio ariannol gan gynnwys adroddiadau penodol ar gyfrif adnoddau cyntaf y Cynulliad a chrynodeb cyfrifon Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol Cymru;
- Ymgymryd ag archwiliadau gwerth am arian ac adrodd fy nghanfyddiadau i’r Cynulliad;
- Ymateb i ohebiaeth gan Aelodau’r Cynulliad, Aelodau Seneddol a’r cyhoedd; a
- Darparu cefnogaeth i’r Pwyllgor Archwilio yn ei driniaeth a’i ffordd o gyflawni ei swyddogaethau.

3. Fe’m cefnogir yn fy nhasg gan staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a leolir yng Nghymru. Mae ganddynt gryn wybodaeth o’r Swyddfa Gymreig gynt a chyrff cyhoeddus noddedig, a bydd eu mewnbwn yn darparu dilyniant a sefydlogrwydd mawr eu hangen dros yr hyn a fydd yn gyfnod cychwynnol tyngedfennol ar gyfer y Cynulliad.

**John Bourn** Adeilad Penpier
**Archwilydd Cyffredinol Cymru** Glannau'r Brifddinas
CAERDYDD CF10 5TH

**Amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2001**

| | **2000-01 Opsiwn Amcangyfrif 1 £000** | **2000-01 Opsiwn Amcangyfrif 2 £000** | **2000-01 Opsiwn Amcangyfrif 3 £000** |
|---|---|---|---|
| Archwiliad cyfrifon (nodiadau 3 a 4) | **675** | **675** | **675** |
| Archwiliad gwerth am arian | **530** | **765** | **1000** |
| Gwaith archwilio arall (nodyn 6) | **205** | **205** | **205** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol eraill (nodyn 7) | **295** | **295** | **295** |
| **Cyfanswm y treuliau** | **1705** | **1940** | **2175** |
| Ffioedd derbyniadwy (nodyn 5) | **(250)** | **(250)** | **(250)** |
| **Darpariaeth net y gofynnir amdani** | **1455** | **1690** | **1925** |

*[Darperir y tri opsiwn i ganiatáu i'r Pwyllgor Archwilio ystyried a mynegi ei farn ar gwmpas a graddfa fy rhaglen archwiliad gwerth am arian. Maes o law, bydd dau o'r opsiynau yn cael eu dileu cyn y cyflwynir yr amcangyfrif yn ffurfiol.]*

***Nodiadau Esboniadol***

1. O dan Adran 92(1) o'r Ddeddf, trefnais fod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn darparu gwasanaeth gweinyddol, proffesiynol a thechnegol hollgynhwysfawr i gefnogi fy swyddogaethau. Mae gan eu staff a leolir yng Nghaerdydd gryn brofiad o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac maent yn gyfarwydd iawn â gweithgareddau'r Swyddfa Gymreig gynt a'i chyrff noddedig. Gallant brynu adnoddau gan gwmnïau cyfrifo lleol ac asiantaethau eraill i gefnogi eu staff craidd ar gyfnodau brig, ac mae ganddynt fynediad i wybodaeth arbenigol ychwanegol yn ôl yr angen.

2. Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn unol â'r Papur Gwyn "Llais dros Gymru" lle cydnabu'r Llywodraeth werth a manteision y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wrth barhau i gymryd prif rôl wrth archwilio'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar ôl datganoli. Ymhlith manteision eraill mewn trefniant o'r fath mae trefniadau canolog ar gyfer technoleg gwybodaeth, cefnogaeth gyfrifyddol ac archwilio, hyfforddi proffesiynol, datblygu gyrfa a chynrychiolaeth ar gyrff sector cyhoeddus a phroffesiynol allweddol megis y Bwrdd Arferion Archwilio.Yn unol ag arfer derbyniol y sector cyhoeddus, mae fy nhrefniadau â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn seiliedig ar femorandwm dealltwriaeth nad yw'n gytundebol. Mae'r gost yn seiliedig ar gostau cyflog uniongyrchol y staff sy'n gweithio ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghyd â chyfran deg o gostau adeiladau Caerdydd, costau uniongyrchol eraill a chostau cyffredinol bach am gost anuniongyrchol megis gwasanaethau ariannol a phersonél.

3. Mae'r gost o archwilio cyfrifon yn cwmpasu'r gwaith o gael tystiolaeth ddigonol, berthnasol a dibynadwy i ategu barn fy archwiliadau ar y cyfrifon a restrir yn atodlen A. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, bydd staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn dilyn y safonau a osodwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Yn y

flwyddyn ariannol 2000 – 01, byddaf yn cwblhau fy ngwaith archwilio ar gyfrifon 1999-00 yn ogystal â dechrau gwaith ar gyfrifon 2000-01.

4. Byddai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi derbyn cyfran fawr o'r gost o archwilio'r cyfrifon hyd yn oed pe na sefydlesid y Cynulliad. Digwydd hyn oherwydd y byddai'n rhaid iddi o hyd archwilio cyfrifon y Swyddfa Gymreig a'i chyrff noddedig. Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cyflenwi ffigyrau arwyddol i Grwp Cyllid y Cynulliad i hwyluso cyd-drafodaethau gyda'r Trysorlys ar gynyddu cyllideb bloc Cymru yn briodol.

5. Caniateir i mi godi ffi am archwilio cyfrifon cyrff cyhoeddus ac eithrio'r Cynulliad. Fodd bynnag, ni ddisgwyliaf gasglu unrhyw dderbyniadau o'r fath ym 1999-00 oherwydd na chaiff archwiliad y cyfrifon am y flwyddyn honno ei gwblhau tan 2000-01.

6. Mae gwaith archwilio arall yn cynnwys adolygu systemau a trefniadau

rheolaeth gorfforaethol y Cynulliad, datblygu busnes a gwaith archwilio sy'n codi o ohebiaeth ac ymholiadau.

7. Ymhlith gwasanaethau eraill mae cefnogaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor Archwilio am sesiynau tystiolaeth a drafftio eu hadroddiadau dilynol, paratoi fy amcangyfrif blynyddol, gwasanaethau cyfrifo a

chadw cyfrifon ar gyfer fy swyddfa, cost fy archwilwyr allanol a benodir gan y Cynulliad, a chostau gweinyddol eraill yn ymwneud â rhedeg fy swyddfa.

8. Mae'r amcangyfrif yn cynnwys TAW sy'n daladwy ar wasanaethau a ddarperir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cyflenwi manylion i Grwp Cyllid y Cynulliad er mwyn hwyluso trafodaethau gyda'r Trysorlys ar gynyddu cyllideb bloc Cymru ar sail ganlyniadol.

## Atodlen 1: Cyfrifon a archwiliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

***Cyfrifon a baratowyd gan y Cynulliad Cenedlaethol***

Cyfrif Adnoddau

Cadw: Welsh Historic Monuments

Cyfrif cryno Cynghorau Hyfforddiant a Menter Cymru

Cyfrif cryno awdurdodau iechyd Cymru

Cyfrif cryno ymddiriedolaethau NHS Cymru

Cyfrif cryno arian a delir ar ymddiriedolaeth gan gyrff NHS Cymru

Cyfrif trethiant annomestig Cymru

Cronfa bensiwn Aelodau'r Cynulliad (8 cyfrif)

***Cyfrifon a baratowyd gan Gyrff Cyhoeddus Noddedig y Gynulliad***

Cyngor Celfyddydau Cymru*

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cronfa bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

Swyddfa Prif Arolygydd Ysgolion EM yng Nghymru

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru

Cyngor Chwaraeon Cymru

Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru

Bwrdd Croeso Cymru

Ombwdsmon Gweinyddu Cymru

Awdurdod Datblygu Cymru

Coedwigaeth Cymru

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Bwrdd Cenedlaethol Cymru er Nyrsio, Bydwreiciaeth ac Ymwelwyr Iechyd

Comisiynwr NHS Cymru (19 o gyfrifon)

*Caiff cyfrifon dosbarthu’r Loteri Genedlaethol ar gyfer y cyrff hyn eu harchwilio gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol a’u cyflwyno ger bron y Senedd a’r Cynulliad.